COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 1af o CHWEFROR 2016 YN SWYDDFA'R CYNGOR,NEUADD PONTIETS AM 7.00.

Presennol: Geraint Rosser (yn y gadair),Margaret Rees,Meic Bowen,Ian Evans, Tyssul Evans,Linda Williams,Heddwyn Jones,Alan Lewis,Aled Williams a'r Clerc,Glyndwr Prideaux

Ymddiheuriadau: Carrie Rees,Wendy Evans,Geoff Hewitt,Ellis Jenkins a Richard Thomas

1344 Cafwyd cyflwyniad gan Mr Phil Wright o Gwmni 'Shared Access' ynglŷn â gosod Peilon derbynnydd ar Gae Rygbi Pontiets i wella cyfleusterau Ffon Symudol yn y Cwm. Penderfynwyd ystyried y mater ymhellach yng Nghyfarfod y Cyngor ym Mis Mawrth.

Materion Personol

1345 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Deallwyd bod y Cynghorydd Richard Thomas yn gwella yn araf.

1346 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod diwethaf ar 04/01/2016 fel rhai cywir.

1347 Materion yn codi.

Tud. 1 Cofnod Rhif 1325 - Parcio Tacsis ym Mhontiets. - Gan fod y sefyllfa wedi gwaethygu pasiwyd ein bod yn cysylltu ymhellach a'r Cyngor Sir a'r Heddlu a gofyn am Gyfarfod Safle i drafod y mater ymhellach

Tud 1. Cofnod Rhif 1334 - Pont Bren dros y Gwendraeth Fawr - Bydd y Cyngor Sir yn adnewyddu'r Bont cyn bo hir.

Tud 2. Cofnod Rhif 1339 a 1341 - Panelau yn eisiau mewn Cysgodfannau - y gwaith wedi eu cwblhau.

Tud 2 . Cofnod 1339 – Goleuadau Nadolig yng Ngharwe – y gwaith wedi ei gwblhau.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

1348 Cylch Meithrin Gwynfryn Meinciau -. Penderfynwyd danfon cyfraniad o £400.

Cynghorwyr Ian Evans,Tyssul Evans ac Aled Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

1349 Cymdeithas Lesiant Carwe – Goleuadau newydd yn Neuadd Carwe - Penderfynwyd danfon cyfraniad o £1159.74 allan o Gronfa Ffoslas tuag at y gwaith

Ian,Tyssul ac Aled yn ail ymuno a'r cyfarfod.

.

1350 Eisteddfod Genedlaethol Sir Fynwy a'r Cyffiniau 2016 – Llythyr yn diolch am y rhodd.

1351 Cylch Meithrin Carwe- Llythyr yn diolch am y rhodd.

1352 Carwe Short Mat Bowls - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1353 Pwyllgor Lles Llangyndeyrn – Goleuadau Nadolig - Llythyr yn diolch am y rhodd.

1354 Ffederasiwn Clybiau Ffermwyr Ifanc Sir Gar – Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

1355 Un Llais Cymru – Pwyllgor Ardal Sir Gaerfyrddin 03/02/16– Nodwyd y llythyr.

1356 Grŵp Cynghorau'r Gwendraeth- Cyfarfod Blynyddol 10/02/16 - Nodwyd y llythyr.

1357 Cyngor Sir Gar – Cadarnhau Presept 2016-2017 – Nodwyd y llythyr.

1358 Cyngor Sir Gar – Costau Goleuadau Troedffordd 2016-2017 – Nodwyd y llythyr.

1359 Cyngor Sir Gar – Pared Dewi Sant, Caerfyrddin 27/02/16 – Nodwyd y llythyr.

1360 Un Llais Cymru – Aelodaeth 2016-2017 – Cost £433.00 – Awdurdodwyd y Clerc i'w dalu.

Ceisiadau Cynllunio

1361

Ceisiadau Cynllunio:

- Tarmac Trading Limited - Chwarelu Torcoed,Torcoed Fawr a Chrwbin - Gwaith Amrywiol - Gofynnwyd am wybodaeth ychwanegol.
- Mr a Mrs E Jones – Fferm Cwm Eynon,Pedair Heol – Newid i Adeilad Bwyd Anifeiliaid – Er bod y cais gwreiddiol wedi hn cael ei thynnu'n ôl mae consyrn o hyd gan drigolion Pedair Heol ynglŷn ag unrhyw ddatblygiadau ar y safle. Penderfynwyd galw Is-bwyllgor Cynllunio pe bai unrhyw fater pellach yn codi.

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r mis

1362 Derbyniwyd adroddiadau ariannol Mis Ionawr 2016.

Adroddiad Ariannol Misol

1363 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-

a) Cyflog y Clerc - £371.25 (Mis Ionawr)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Ionawr)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £97.52 (Mis Ionawr)
ch) HMRC (Treth)- £74.20 (Mis Ionawr)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Ionawr)
dd) Excel Electrics – Atgyweirio Goleuadau Nadolig Maesywern,Carwe- £55.32
e) Martin Richards - Atgyweirio Cysodfannau Bysiau - £650.00
f) Neuadd Lesiant Pontiets - Llogi'r Neuadd gan 'Pontyates Cage Bird Society - £100.00 (Gwelliant i gofnod rhif 1274)

Cynghorwr Linda Williams yn datgan diddordeb, arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

ff) Neuadd Lesiant Pontiets – Rhent y Llyfrgell 2016 - £1500.00

Linda yn ail ymuno a'r cyfarfod.

g) Jamie King – Rheoli'r Wefan - £45.00
` **ng)** Glanhawyr Cysodfannau Bysiau'r Gymuned (5) - £200.00 yr un

Materion Cynghorwyr

1364 Ian

- Piben Dwr yn rhydd yn y Bwthyn Gwyn,Carwe – Gofyn i'r perchennog datrys y broblem
- Cysylltu â'r Cyngor Sir eto ynglŷn ag Arwyddion Ceffylau yng Ngharwe.
- Cysylltu â Chyngor Cymuned Trimsaran ynglŷn â chyflwr Cysodfannau Bysiau Nantygro a 'London Bridge'

1365 Tyssul Danfon cyfarchion y Cyngor i Ms Mary Richards,Cwm Cyndeyrn,Llangyndeyrn ar ennill y teitl ' Colegau Cymru - Athrawes y Flwyddyn'

1366 Geraint Cysylltu gyda Chyngor Cymuned Pontyberem am unrhyw ddiweddariad ynglŷn â chyflymder traffig ar Fynydd Llangyndeyrn

1367 Heddwyn Gofyn i Mike Roberts, Adran Amgylchedd y Cyngor Sir glanhau Maes Parcio Pontiets – y lle yn warthus ar hyn o bryd.

Cyfarfod nesaf:- 7fed o Fawrth 2016 yn Swyddfa'r Cyngor,Neuadd Pontiets am 7.00 o'r gloch.
(Cyfarfod Cynllunio am 6.45 o'r gloch)

Llofnodwyd…… CADEIRYDD

Dyddiad……